

adeiladu am y dyfodol



Polisi Gwrth Caethwasiaeth



Datganiad Polisi

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd sy'n arwain at gamddefnydd ffaidd o hawliau dynol gweithwyr bregus. Gall fod ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur trwy rym neu orfodol a masnachu mewn pobl. Mae gan y Cwmni agwedd o ddim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth fodern ac mae wedi ymrwymo i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb a thryloywder yn ei holl drafodion busnes a chysylltiadau ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn digwydd mewn unrhyw le o fewn ei fusnes ei hun neu yn unrhyw un o'i gadwyni cyflenwi, sy'n gyson â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Cwmni hefyd yn disgwyl yr un safonau uchel gan ei holl gyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes eraill ac, fel rhan o'i brosesau contractio, mae'n cynnwys gwaharddiadau penodol yn erbyn defnyddio caethwasiaeth fodern, ac mae'n disgwyl y bydd ei gyflenwyr yn eu tro yn mynnu bod eu cyflenwyr hwy eu hunain yn cadw at yr un safonau.

Gall nodi dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern fod yn her oherwydd gall y drosedd amlygu ei hun mewn llawer o wahanol ffyrdd. Mae sbectwm o gamdriniaeth ac nid yw bob amser yn glir ar ba bwynt, er enghraifft, mae arferion gwaith gwael a diffyg ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch wedi dod yn achosion o fasnachu mewn pobl, caethwasiaeth neu lafur gorfodol mewn amgylchedd gwaith. Yn ogystal, efallai y bydd rhai cyflenwyr yn mynd i drafferth fawr i guddio'r ffaith eu bod yn defnyddio llafur caethweision. Fodd bynnag, mae'r Cwmni'n derbyn bod ganddo gyfrifoldeb trwy ei brosesau ymroddiad llwyr i sicrhau nad yw gweithwyr yn cael eu hecsbloetio, eu bod yn ddiogel a'u bod yn cadw at gyfreithiau a safonau cyflogaeth, iechyd a diogelwch a hawliau dynol perthnasol, gan gynnwys rhyddid i weithredu, symud a chyfathrebu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio i'r Cwmni neu ar ran y Cwmni mewn unrhyw swyddogaeth, gan gynnwys cyflogeion, cyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr, asiantau, contractwyr, ymgynghorwyr a phartneriaid busnes.

Cyfrifoldeb am y Polisi

Bwrdd y cyfarwyddwyr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y polisi hwn yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol y Cwmni.

Mae gan Andrea Gravell, Cyfarwyddwr Adnoddau gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithredu'r polisi hwn, monitro ei ddefnydd a'i effeithiolrwydd ac archwilio systemau rheoli mewnol a pholisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth atal neu adfer y risg o gaethwasiaeth fodern. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gaethwasiaeth fodern ym musnes neu gadwyni cyflenwi'r Cwmni.

Mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n adrodd nol iddynt yn deall ac yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Cydymffurfiad

Mae atal, canfod ac adrodd am gaethwasiaeth fodern mewn unrhyw ran o fusnes neu gadwyni cyflenwi'r Cwmni, boed yn y DU neu dramor, yn gyfrifoldeb i bawb sy'n gweithio i'r Cwmni neu o dan reolaeth y Cwmni. Mae'n ofynnol i chi osgoi unrhyw weithgaredd a allai arwain at dorri'r polisi hwn.

Os ydych yn credu neu'n amau bod y polisi hwn wedi'i dorri neu fod yna wrthdaro ag ef, neu y gallai ddigwydd, rhaid i chi hysbysu'ch rheolwr llinell neu adrodd amdano yn unol â pholisi cyhuddo'r Cwmni. Fe'ch anogir i godi pryderon am unrhyw fater neu amheuaeth o gaethwasiaeth fodern mewn unrhyw ran o fusnes neu gadwyni cyflenwi'r Cwmni cyn gynted â phosibl. Os ydych yn ansicr a yw gweithred benodol, y ffordd y caiff gweithwyr eu trin neu eu hamodau gwaith o fewn unrhyw un o gadwyni cyflenwi'r Cwmni yn gyfystyr ag unrhyw un o'r gwahanol fathau o gaethwasiaeth fodern, codwch y mater gyda'ch rheolwr llinell. Gallwch hefyd gysylltu â Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern y llywodraeth ar 0800 0121 700 am ragor o wybodaeth ac arweiniad ar gaethwasiaeth fodern..

Nod y Cwmni yw annog bod yn agored a bydd yn cefnogi unrhyw un sy'n codi pryderon gwirioneddol dilys o dan y polisi hwn, hyd yn oed os ydynt yn troi allan i fod yn gamgymeriad. Mae'r Cwmni wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw un yn dioddef unrhyw driniaeth niweidiol neu erledigaeth o ganlyniad i adrodd yn ddiwyll eu hamheuron bod neu y gallai caethwasiaeth fodern fod yn digwydd mewn unrhyw ran o'i fusnes neu yn unrhyw un o'i gadwyni cyflenwi.

Hyfforddiant a Chyfathrebu

Bydd hyfforddiant mewnol rheolaidd ar y polisi hwn, ac ar y risg y mae'r busnes yn ei wynebu yn sgil caethwasiaeth fodern yn ei gadwyni cyflenwi, yn cael ei ddarparu i staff yn ôl yr angen, fel eu bod yn gwybod sut i nodi manteisio ar gam a chaethwasiaeth fodern a sut i adrodd am achosion a amheuir

Rhaid cyfleu agwedd dim goddefgarwch y Cwmni at gaethwasiaeth fodern i'r holl gyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes eraill wrth ymrwymo i gontractau newydd neu gontractau wedi'u hadnewyddu gyda nhw.

Torri'r Polisi

Bydd unrhyw weithiwr sy'n torri'r polisi hwn yn wynebu camau disgyblu, hyd at a chan gynnwys diswyddiad diannod am gamymddwyn difrifol.

Gall y Cwmni derfynu ei berthynas fasnachol â chyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes eraill os ydynt yn torri'r polisi hwn a/neu y canfyddir eu bod wedi ymwneud â chaethwasiaeth fodern..

Adolygwyd a Diweddarwyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Hydref, 2022. I'w adolygu eto ym mis Hydref 2024.